Ombwdsmon Ombudsman
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES

# Unioni Pethau

## Beth fydd yn digwydd os yw'n well unioni'ch cwyn trwy fynd i'r llys

Hawdd ei Ddarllen

# Cynnwys

Tudalen


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Achosion a ddylai fynd i'r llys | 5 |
| Os gallwch chi fynd i'r llys | 6 |
| Am fwy o wybodaeth | 10 |


**print trwm**

Yn y ddogfen hawdd ei ddarllen hon, mae geiriau anodd mewn **print trwm**. Rydym yn egluro beth mae'r geiriau hyn yn ei olygu yn y frawddeg ar ôl iddyn nhw gael eu defnyddio.




Mae rhai geiriau yn las ac wedi eu tanlinellu. Mae'r rhain yn ddolenni a fydd yn mynd i wefannau eraill sydd â mwy o wybodaeth.

# Cyflwyniad

Mae'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) yn sefydliad annibynnol sy'n delio â chwynion.

Rydym yn delio â chwynion am:




- wasanaethau cyhoeddus - mae'r rhain yn wasanaethau sy'n cael eu cynnig gan sefydliad sy'n rhan o'r llywodraeth



- cynghorion lleol - mae'r rhain yn bobl sydd wedi'u dewis i redeg cyngor.




- cyrff cyhoeddus - mae'r rhain yn sefydliadau sy'n rhoi gwasanaethau i'r cyhoedd. Maent yn cael arian gan y llywodraeth ond nid ydynt yn rhan ohoni.




Gyda rhai cwynion, mae'n well unioni pethau trwy **fynd i'r llys**.  Mae'r ddogfen hon yn egluro beth sy'n digwydd os dylai eich achos fynd i'r llys.



Mae **mynd i'r llys** yn golygu defnyddio'r gyfraith i unioni pethau.



Yn y llys, bydd barnwr yn gwneud penderfyniad ynghylch yr hyn sy'n gywir a'r hyn sy'n anghywir mewn achos.



Fel arfer, bydd angen **twrnai** arnoch i'ch helpu i fynd i'r llys.
**Twrnai** yw cyfreithiwr a fydd yn eich helpu yn y llys.

# Achosion a ddylai fynd i'r llys



Mae yna rai amgylchiadau penodol pan ddylech chi fynd i’r llys i unioni pethau.


Dylech chi fynd i’r llys os yw’r achos yn ymwneud â:



- **esgeuluster clinigol** - dyma pryd mae gweithiwr proffesiynol gofal iechyd neu feddygol wedi achosi niwed i chi trwy beidio â rhoi'r driniaeth briodol i chi



- **torri contract** - dyma pryd nad yw corff cyhoeddus wedi gwneud rhywbeth y mae i fod i'w wneud



- **hawliad am iawndal** - dyma pryd mae corff cyhoeddus neu rywun sy’n gweithio iddyn nhw wedi difrodi eich eiddo.

# Os gallwch chi fynd i'r llys



Mae'r gyfraith yn dweud os oes ffordd o unioni eich achos yn y llys, yna ni ddylen ni edrych i mewn i'ch cwyn.

Ond, hyd yn oed pe bai ffordd o unioni eich achos yn y llys, nid yw'n deg disgwyl i bawb fynd i'r llys.

## Penderfynu a yw'n deg disgwyl i chi fynd i'r llys



Os ydym yn meddwl nad yw'n deg dweud y dylech fynd â'ch achos i'r llys, efallai y gallwn eich helpu â'ch cwyn yn lle.




I'n helpu i wneud penderfyniad, efallai y bydd angen i ni ofyn i chi am ragor o wybodaeth.

Dyma’r math o wybodaeth y gallai fod angen i ni ofyn ichi amdani:



- eich sefyllfa a pam rydych chi’n meddwl na allwch chi fynd i’r llys



- sut yr hoffech i'ch cwyn gael ei chywiro



- a oes gennych dwrnai




- a oes gennych **yswiriant cyfreithiol** neu **gymorth cyfreithiol** - dyma arian y gallwch ei gael i'ch helpu i dalu am fynd i'r llys.

# Gwneud penderfyniad



Gallwn benderfynu na ddylech orfod mynd â'ch achos i'r llys, ac y gallwn ddelio â'ch cwyn i helpu unioni pethau.



Er enghraifft, efallai y byddwch eisiau:


- ymddiheuriad gan y corff cyhoeddus




- atebion i'ch cwestiynau




- awndal - dyma arian sy'n cael ei roi i dalu cost rhywbeth a ddigwyddodd.



Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am yr hyn y gallwn ofyn i gyrff cyhoeddus ei wneud i unioni pethau i chi, yma: [https://www.ombwdsmon.cymru/fact-sheets/rhwymediau/](https://www.ombwdsmon.cymru/fact-sheets/rhwymediau/)



Ond efallai y byddwn yn penderfynu y dylech chi fynd i'r llys, os ydyn ni'n credu y byddai'r llysoedd yn unioni pethau yn y ffordd rydych chi ei eisiau.



Er enghraifft, os ydych chi am dderbyn swm mawr o arian i unioni pethau, dylech fynd i'r llys.

# Am fwy o wybodaeth



Ffôn:
0300 790 0203



Ebost:
owninitiative@ombwdsmon.cymru




Gwefan:
www.ombwdsmon.cymru



Post:
**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**
**1 Ffordd yr Hen Gae**
**Pencoed**
**CF35 5LJ**